Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gymuned Moelfre
Moelfre
Ynys Môn
LL72 8HA

21/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gymuned Moelfre yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Lleihau'r defnydd o fframweithiau parod er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach mewn tasgau ar draws y cwricwlwm

- Ar draws y ffederasiwn, mae arweinwyr a staff yn rhoi blaenoriaeth glir i feithrin medrau ysgrifennu disgyblion. Mae llai o ddibyniaeth y disgyblion ar fframweithiau parod bellach yn eu galluogi i ddatblygu yn awduron mwy hyderus ac annibynnol.
- Mae cydlynwyr llythrennedd y ffederasiwn yn cyd-gynllunio'n fwriadus i sicrhau cyfleoedd cyson ac ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu. Trwy drosolwg iaith clir, sy'n cynnwys ystod berthnasol o ffurfiau ysgrifennu, mae staff yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau'n adeiladol ac i'w cymhwyso yn bwrpasol ar draws gwahanol feysydd dysgu dros gyfnod.
- Mae staff yn gwneud defnydd cyson o adnoddau iaith ar arddangosfeydd buddiol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r adnoddau defyddiol hyn yn galluogi y rhan fwyaf o ddisgyblion i feistroli patrymau iaith yn werthfawr, sydd, yn ei dro, yn cyfoethogi eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu dros amser, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gyson yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu mewn ystod briodol o ffurfiau ac yn addasu'r arddull a strwythur at wahanol ddibenion yn gynyddol hyderus.
- Trwy'r defnydd cyson o ddulliau cytunedig, fel y 'Bocs Gwyrdd', darperir cyfleoedd ystyrlon a rheolaidd i ddisgyblion olygu ac gwella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig.
- Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff. Mae hyn yn cryfhau eu dealltwriaeth o ddatblygiad medrau llafar disgyblion gan osod sail gadarn ar gyfer gwella eu medrau ysgrifennu.
- Mae staff yn defnyddio dull cytûn ac effeithiol i hyrwyddo defnydd creadigol o ystum a symudiadau ystyrlon i gefnogi medrau'r disgyblion. Mae'r dull hwn yn meithrin hyder disgyblion wrth fynegi eu syniadau ar lafar mewn ffordd strwythuredig, sy'n eu galluogi i drosglwyddo'r medrau hyn yn fwriadus i'w hysgrifennu mewn cyd-destunau dilys ar draws y meysydd dysgu.
- Mae arweinwyr yn cefnogi y cydlynwyr llythrennedd i gyfrannu'n weithredol at y broses werthuso. Mae hyn yn eu galluogi i adnabod cryfderau a meysydd ar gyfer gwella yn y ddarpariaeth er mwyn cael effaith cadarnhaol ar gynnydd a safonau disgyblion.

### Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi hybu cydweithio brwd rhwng staff ar draws y ffederasiwn er mwyn rhoi sylw bwriadus i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion.
- Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu sesiynau mathemateg sy'n gosod sylfaen briodol i hybu medrau rhifedd disgyblion. Maent wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol er mwyn cysoni dulliau o gyflwyno cysyniadau mathemategol i ddisgyblion y ffederasiwn.
- Mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn fwriadus wrth ymateb i heriau ymarferol ac ystyrlon yn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.
- Yn gyffredinol, mae athrawon y disgyblion hynaf yn adnabod ystod o gyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gweithgareddau dysgu buddiol ar draws y meysydd dysgu.
- At ei gilydd, mae'r gweithgareddau dysgu yn darparu her briodol i ddisgyblion, er, ar adegau, nid yw'r disgwyliadau ar gyfer y disgyblion mwy abl bob amser yn ddigon uchelgeisiol. Mae cydlynwyr rhifedd y ffederasiwn yn cydnabod yr angen i fireinio'r ddarpariaeth i sicrhau datblygiad parhaus ym medrau rhifedd disgyblion dros amser, yn enwedig i'r rhai ar frig yr ysgol.

Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602145

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol